Department for Environment Food & Rural Affairs

# Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol (GEFS)

## Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol i hwyluso allforion cyfunol o Brydain Fawr i'r UE (tramwy neu allforio uniongyrchol) a symud cynhyrchion i neu drwy Ogledd Iwerddon

**Ionawr 2022**

ET193 (Diw 01/22)

(h) Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn gefs@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

ET193(Cymraeg) (Diw. 01/22)

## Cynnwys


Cefndir ..... 1

Canllawiau ar gyfer cwmnïau allforio ..... 3

Defnyddio Ardystiadau Cymorth ..... 6

Trosolwg ..... 6

Canllawiau Ardystiadau Cymorth ar gyfer Swyddogion Ardystio ..... 9

Canllawiau Ardystiadau Cymorth ar gyfer Cyflenwyr/Milfeddygon Cofrestredig ..... 12

Gwrthdaro Buddiannau ..... 15

Cysylltu â ni ..... 16

Atodiad I: siart lif proses ..... 17

Atodiad II: Templed ardystiad cymorth ..... 19

I. Datganiad cyflenwr ..... 19

II. Datganiad milfeddyg cofrestredig, Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddog Cymorth Ardystio ..... 21

Sut i ‘ledu a stampio’ dogfen: ..... 25

Atodiad III: Ffurflen gais y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol (GEFS) ..... 26

# Cefndir

1. Mae'r canllawiau hyn yn nodi cynllun ar gyfer defnyddio ardystiadau cymorth â therfyn amser i hwyluso'r gwaith o ardystio tystysgrifau iechyd allforio'r **Undeb Ewropeaidd (UE)** ar gyfer allforion **cyfunol**[1] i'r UE, neu at ddibenion tramwy[2] (gan gynnwys fel sy'n ofynnol o dan Brotocol Gogledd Iwerddon ar gyfer symud cynhyrchion o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, lle mae tystysgrifau iechyd allforio'n ofynnol).

2. I ddefnyddio'r cynllun hwn, mae'n rhaid i allforwyr fod yn aelodau o'r “Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol”.

3. Mae'r cynllun wedi'i gyfyngu i gefnogi allforion neu symudiadau o Brydain Fawr sy'n defnyddio ardystiadau ategol perthnasol gan gyflenwyr yn y DU. Nid yw'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol yn dileu nac yn newid y gofyniad i dystysgrif iechyd allforio gael ei hanfon gyda phob llwyth o gynhyrchion a gaiff ei allforio, ond bwriedir iddo hwyluso'r broses i swyddogion ardystio gael gafael ar wybodaeth berthnasol.

4. Gellir ond defnyddio'r ardystiadau cymorth 30 diwrnod a ddisgrifir yn y ddogfen hon i hwyluso'r broses o ddarparu gwybodaeth i swyddogion ardystio ar gyfer **categorïau penodol o gynhyrchion sydd wedi'u cynhyrchu gan rwydwaith sefydlog o gyflenwyr hysbys, fel y nodir isod**.

5. Gellir defnyddio ardystiadau cymorth 30 diwrnod ar gyfer cynhyrchion cyfansawdd, cynhyrchion cig, paratoadau cig a chynhyrchion llaeth i'w bwyta/yfed gan bobl yn ogystal â bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu. Gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid megis mêl, coesau brogaod, malwod,

---

[1] Mae allforyn cyfunol yn allforyn lle mae'r canlynol yn gymwys:

a) caiff llinellau cynhyrchion lluosog o'r un math o nwyddau (e.e. cynhyrchion cyfansawdd) eu grwpio o dan un dystysgrif iechyd allforio er mwyn eu hallforio fel llwyth unigol.

b) caiff symiau lluosog o'r un math o nwyddau (e.e. cynhyrchion pysgod), o nifer o ffynonellau o bosibl, eu grwpio yn yr un cynhwysydd. Gall fod yn bosibl allforio'r rhain fel llwyth unigol wedi'i gwmpasu gan un dystysgrif iechyd neu fel llwyth cymysg (yn cynnwys nifer o lwythi).

c) caiff mathau gwahanol o nwyddau lluosog (e.e. cynhyrchion llaeth a chynhyrchion cig) eu grwpio mewn cynhwysydd unigol.

[2] Mae tramwy yn digwydd lle mae'r cynhyrchion yn dod i mewn ac yn gadael yr UE heb i'r UE dderbyn y cynhyrchion i'w rhoi ar farchnad yr UE. Mae allforio uniongyrchol yn digwydd lle mae'r cynhyrchion yn dod i mewn i'r UE ac yn cael eu derbyn gan yr UE i'w rhoi ar farchnad yr UE

molysgiaid dwygragennog byw, cynhyrchion pysgod/pysgodfeydd, wyau a chynhyrchion wyau pan fyddant i'w bwyta gan bobl.

6. Ni ellir defnyddio ardystiadau cymorth 30 diwrnod ar gyfer cig ffres, llaeth heb ei drin, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl (ac eithrio bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu), anifeiliaid byw, cynhyrchion cenhedlol neu unrhyw gynhyrchion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys ym mhwynt 5.

7. Rhaid i gynhyrchion fod wedi'u pecynnu'n llwyr i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol ar adeg rhoi'r ardystiad cymorth. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchion a gaiff, wedi hynny:
    - eu hailbecynnu yn uniongyrchol ar adeg gwerthu i'r defnyddiwr terfynol[3]
    - eu dadbecynnu mewn amgylchedd gwasanaethau bwyd a'u torri neu eu haildwymo ar adeg gwerthu i'r defnyddiwr terfynol

    Nid yw cynhyrchion swmp a allforir ar gyfer prosesu pellach yn cael eu cynnwys

8. Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan:
    - Allforwyr
    - Swyddogion Ardystio gan gynnwys Milfeddygon Swyddogol
    - Cyflenwyr
    - Milfeddygon a Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd (FCCOs) sy'n ardystio ardystiadau cymorth
    - Swyddogion Cymorth Ardystio sy'n gweithio o dan gyfarwyddyd Swyddogion Ardystio

9. Dylid darllen y ddogfen ganllaw hon yn ei chyfanrwydd. Mae pob adran yn gymwys i weithrediad y cynllun. Mae'n rhaid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau (UE a DU) eraill sy'n gysylltiedig â Thystysgrifau Iechyd Allforio, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y Tystysgrifau Iechyd allforio perthnasol.

10. Nid yw'r canllawiau hyn yn nodi unrhyw daliadau ariannol sy'n codi o weithredu'r cynllun.

11. Caiff y cynllun a ddisgrifir yn y ddogfen hon ei adolygu'n rheolaidd. Os daw'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol i ben, rhoddir chwe mis o rybudd i'r aelodau. Mae'n rhaid i allforwyr, cyflenwyr ac ardystwyr sy'n defnyddio'r system hon sicrhau eu bod yn cymhwyso'r rheolau a nodir yn y fersiwn gyhoeddedig ddiweddaraf o'r canllawiau hyn.

---

[3] Un enghraifft bosibl o gynnyrch a gaiff ei ailbecynnu yn uniongyrchol ar adeg gwerthu yw cynnyrch cyfansawdd (e.e. pastai porc) wedi'i allforio'n gyfan sy'n cael ei ailbecynnu wrth gownter deli i'w werthu i'r cwsmer terfynol.

12. Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddogion Milfeddygol yn y DU, Defra, a Choleg Brenhinol y Milfeddygon.

13. Bwriad y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol yw rhoi lefel ddigonol o hyder i Swyddogion Ardystio ac awdurdodau cymwys yng nghywirdeb yr ardystiadau cymorth a ddefnyddir yn y ddogfen hon, a'r ffordd y maent yn gweithredu o dan y canllawiau hyn.

14. Gweinyddir y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol gan Defra ym Mhrydain Fawr.

## Canllawiau ar gyfer cwmnïau allforio

15. Mae'n rhaid i'r holl allforwyr sydd am ddefnyddio'r cynllun hwn gael eu rhestru fel aelodau o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol. Er mwyn gwneud cais i gael eu rhestru o dan y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol, mae'n rhaid i allforwyr gwblhau'r ffurflen gais yn Atodiad III, a'i hanfon drwy e-bost i GEFS@defra.gov.uk.Mae'n rhaid i'r holl allforwyr sy'n defnyddio'r cynllun gyrchu'r holl gynhyrchion anifeiliaid sydd wedi'u cynnwys yn eu hallforion o restr o gyflenwyr sefydlog ac wedi'u dogfennu.[4] Mae'n rhaid i'r rhestr o gyflenwyr gynnwys y canlynol:
    - cyfeiriad cofrestredig pob cyflenwr
    - y cyfeiriad y caiff y cyflenwadau eu caffael neu eu danfon ohono (os yw'n wahanol i'r cyfeiriad cofrestredig)
    - manylion y cynhyrchion a gaiff eu cyflenwi gan bob cyflenwr
    - ers faint o amser y mae pob cyflenwr wedi bod yn darparu'r nwydd neu'r nwyddau i'r allforiwr
    - cadarnhad bod y cynhyrchion wedi'u pecynnu'n llwyr ar gyfer y defnyddiwr terfynol

16. Os bydd allforiwr am ddefnyddio ardystiadau cymorth i symud cynhyrchion o'i safle gweithgynhyrchu i ddepo ym Mhrydain Fawr y cânt eu hallforio oddi yno wedyn, gall drin ei safleoedd gweithgynhyrchu fel cyflenwyr. Os digwydd hyn, dylai'r rhestr o gyflenwyr gynnwys y canlynol:
    - cyfeiriad cofrestredig pob cyflenwr/safle cyflenwi
    - y cyfeiriad y caiff y cyflenwadau eu caffael neu eu danfon ohono (os yw'n wahanol i'r cyfeiriad cofrestredig)
    - manylion y cyflenwadau gan bob cyflenwr/safle cyflenwi
    - cadarnhad bod y cynhyrchion wedi'u pecynnu'n llwyr ar gyfer y defnyddiwr terfynol

[4] Dylai'r rhestr cyflenwyr hon gael ei chreu gan yr allforiwr ac mae'n rhaid iddi fod yn rhestr gyflawn o'r holl gyflenwyr sy'n cyflenwi cynhyrchion anifeiliaid ar gyfer allforio neu dramwyo drwy'r UE neu Ogledd Iwerddon, a fydd yn defnyddio ardystiadau cymorth.

17. Os bydd nifer bach o safleoedd cyflenwi yn darparu nifer cyfyngedig o gynhyrchion i'w hallforio, gall fod yn symlach i'r Swyddog Ardystio gael y wybodaeth y bydd ei hangen arno heb ddefnyddio ardystiadau cymorth 30 diwrnod y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol a dylai busnesau drafod hyn â'u Swyddog Ardystio.

18. Mae'n rhaid i'r rhestr hon fod ar gael ar gais gan y Swyddog Ardystio, Swyddog Cymorth Ardystio neu filfeddyg cofrestredig. Ym Mhrydain Fawr, diffinnir milfeddyg cofrestredig fel aelod (neu'n gymrawd) o Goleg Brenhinol y Milfeddygon. Yng Ngogledd Iwerddon, at ddiben a gweithrediad y cynllun hwn yn unig, diffinnir milfeddyg cofrestredig fel milfeddyg sy'n aelod (neu'n gymrawd) o Goleg Brenhinol y Milfeddygon ac sydd wedi'i benodi gan DAERA i roi ardystiadau cymorth o dan y cynllun hwn.

19. Mae'n rhaid bod gan Swyddogion Ardystio dystiolaeth bod yr allforiwr yn aelod o'r cynllun cyn y gellir rhoi ardystiad cymorth. Byddai tystiolaeth yn cynnwys llythyr derbyn swyddogol (a anfonir drwy e-bost fel arfer) neu gyfeiriad at y Rhestr o aelodau.

20. Bydd yr holl gyflenwyr sy'n defnyddio ardystiadau cymorth yn destun archwiliadau milfeddygol rheolaidd ac, yn yr archwiliad cychwynnol, bydd yn ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth sy'n dogfennu cadwyn gyflenwi sefydlog ar gyfer y chwe mis blaenorol (gweler Atodiad II). Bydd yn ofynnol i gyflenwyr gasglu tystiolaeth berthnasol i'w chyflwyno i'r milfeddyg sy'n archwilio, Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Cymorth Ardystio sy'n gweithio o dan gyfarwyddyd Milfeddyg Swyddogol yn yr archwiliadau hyn. Ni ellir llofnodi ardystiadau cymorth nes bod y dystiolaeth hon wedi cael ei darparu a'i hadolygu, a bydd angen i gyflenwyr gynllunio ymlaen llaw i gytuno ar ba wybodaeth fydd yn ofynnol i fodloni'r Swyddog Ardystio.

21. Rhaid i archwiliadau gael eu cynnal ar y safle gan y milfeddyg sy'n archwilio, Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddog Cymorth Ardystio sy'n gweithio o dan gyfarwyddyd Milfeddyg Swyddogol o leiaf unwaith bob tri mis, a gellir cynnal ymweliadau rhithwir yn y cyfamser os bydd yr ardystiwr o'r farn bod hynny'n cydymffurfio â Chod Ymddygiad Coleg Brenhinol y Milfeddygon mewn perthynas ag ardystio o bell.

22. Os byddant yn defnyddio ardystiad cymorth er mwyn helpu i ardystio allforion, bydd yn rhaid i allforwyr sicrhau bod eu cyflenwyr:
    - wedi trafod ymlaen llaw â'r Swyddog Ardystio pa wybodaeth ategol i'w chynnwys yn yr ardystiad cymorth (gan gyfeirio at Dystysgrifau Iechyd Allforio perthnasol yr UE)
    - trefnu archwiliadau a hwyluso mynediad gan filfeddygon cofrestredig, Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddog Cymorth Ardystio o dan gyfarwyddyd y Swyddog Ardystio i'r sefydliad(au) cyflenwi a hwyluso eu mynediad i gofnodion perthnasol a lleoliadau archwilio.

- sicrhau bod ardystiadau cymorth yn cael eu llofnodi ar ran y cwmni cyflenwi gan unigolyn â gwybodaeth ddigonol am y safleoedd a'r prosesau ac sydd â'r cyfrifoldeb a'r awdurdod (a geir yn ysgrifenedig o lefel cyfarwyddwr cwmni neu lefel gyfatebol) i lofnodi ar ran y cwmni cyflenwi
- sicrhau bod cyflenwyr yn hysbysu'r cwmni allforio a'r milfeddyg cofrestredig, y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Cymorth Ardystio a lofnododd yr ardystiad cymorth am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ddilysrwydd y datganiadau yn yr ardystiad cymorth yn ddi-oed.

23. Gall ardystiad cymorth gwmpasu cynhyrchion sydd wedi'u rhewi neu sy'n destun prosesu am fwy na chwe mis (e.e. caws sy'n aeddfedu) o hyd ar yr amod bod y manylion iechyd ac olrhain (fel sy'n ofynnol gan y Dystysgrif Iechyd Allforio) ar gyfer unrhyw gynhyrchion a gyflenwyd i'r allforiwr yn y cyfnod o chwe mis yn ddigon sefydlog (gweler Atodiad II).

24. Os bydd tystiolaeth nad yw allforiwr yn cydymffurfio â'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol, mae Defra yn cadw'r hawl i dynnu cymeradwyaeth allforiwr i weithredu o dan y cynllun hwn. Byddai eu tynnu o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol yn atal allforwyr rhag ardystio llwythi i'w hallforio o dan y canllawiau hyn. Gellir adfer allforwyr sydd wedi cael eu tynnu o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ar sail tystiolaeth sy'n rhoi sicrwydd ategol y byddan nhw a'u cyflenwyr yn cydymffurfio â'r cynllun.

25. Wrth aildderbyn yr allforiwr i'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol, bydd unrhyw gyflenwyr sy'n methu â bodloni amodau'r cynllun yn destun archwiliad milfeddygol cychwynnol neu gan Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd, a fydd yn craffu ar y chwe mis blaenorol o leiaf (o'r dyddiad aildderbyn) i ddangos (hyd at lefel sy'n foddhaol i'r milfeddyg cofrestredig neu'r Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd) bod eu cadwyn gyflenwi wedi'i dogfennu ddigon ac yn ddigon sefydlog cyn y gellid defnyddio ardystiadau cymorth (gweler canllawiau yn Atodiad II ar gyflenwyr newydd).

26. Mae'n debygol y bydd unrhyw fethiannau difrifol neu fethiannau sy'n digwydd dro ar ôl tro i gydymffurfio ag amodau'r cynllun yn debygol o arwain at eithrio'r allforiwr o'r cynllun hwn yn barhaol. Pan gaiff allforiwr ei dynnu o'r cynllun, gall yr allforiwr ofyn am i'r penderfyniad i dynnu gael ei ailystyried.

27. Bydd aelodau'n destun proses archwilio, a fydd yn sicrhau bod aelodau'n cydymffurfio â'r cynllun o ran sefydlogrwydd y gadwyn gyflenwi a'r cynhyrchion a gaiff eu cynnwys ar ardystiadau cymorth y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol. Mae'r broses archwilio'n canolbwyntio ar dystiolaeth ddogfennol gan aelodau yn hytrach nag archwiliadau ar y safle. Mae proses ar wahân eisoes yn bodoli ar gyfer ymchwilio i adroddiadau o gamymddwyn posibl, sy'n parhau i fod ar wahân i'r broses archwilio.

28. Caiff dau aelod eu dewis i gael eu harchwilio bob mis, a hynny drwy broses hapsamplu.

29. Gofynnir i aelodau a samplwyd gwblhau rhestr wirio yn rhestru'r 50 EHC diwethaf a gyhoeddwyd gan ddefnyddio ardystiadau cefnogi GEFS, gyda chwestiynau yn ymwneud â'r nwyddau a gwmpesir, cyfaint y cynhyrchion a'r cyflenwyr a gawsant o. O'r rhestr wirio honno mae EHCs yn cael eu samplu ar hap a gofynnir am y gwaith papur canlynol yn ymwneud â'r ardystiadau cymorth a samplwyd:
    - ardystiad cymorth
    - Tystysgrifau Iechyd Allforio sy'n gysylltiedig â'r ardystiad cymorth
    - unrhyw ddogfennau eraill sy'n dangos sefydlogrwydd y gadwyn gyflenwi a safonau iechyd ac olrhain

    Rhaid i'r gwaith papur a ddarperir ddangos bod yr aelod yn bodloni gofynion y cynllun. Os bydd aelod yn methu â chydymffurfio â'r broses archwilio, mae'n bosibl y caiff ei ddiarddel o'r cynllun

30. Os gwelir gwallau sylweddol fel rhan o'r archwiliad, cynhelir ymchwiliadau pellach, a all arwain at atal dros dro.

31. Lle y bo'n briodol, gwneir argymhellion ar sail canfyddiadau'r archwiliad er mwyn gwella'r cynllun a chyfathrebir â phob aelod. Caiff cofnod o ganfyddiadau a chanlyniadau'r archwiliad ei rannu â Choleg Brenhinol y Milfeddygon mewn crynodeb blynyddol o'r cynllun.

# Defnyddio Ardystiadau Cymorth

## Trosolwg

32. Gall aelodau o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ddefnyddio ardystiadau cymorth â therfyn amser (30 diwrnod calendr) i ddarparu gwybodaeth oddi wrth sefydliadau cyflenwi/cynhyrchu, a gymeradwyir ar hyn o bryd o dan reoliadau'r UE  (Rheoliad (UE) 853/2004)[5], i Swyddogion Ardystio yn y safle allforio.

33. Bydd rhif cymeradwyo neu gofrestru (yn ôl yr angen) y sefydliadau tarddiad/gwneuthurwr y cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn rhan o'r ardystiad cymorth.

34. Mae'n rhaid defnyddio geiriad yr ardystiad cymorth o'r templed yn Atodiad II ond gellir cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

---

[5] Neu, yn achos Cynhyrchion Cyfansawdd, dylid eu cofrestru yn unol â Rheoliad EC 852/2004 ac yn achos bwyd anifeiliaid anwes, dylid eu cofrestru yn unol â Rheoliad EC 1069/2009

35. Dim ond ar gyfer hwyluso gwaith ardystio allforion yr UE o lwythi allforion cyfunol o gategorïau penodol o gynhyrchion (gan gynnwys fel sy'n ofynnol o dan Brotocol Gogledd Iwerddon ar gyfer symud cynhyrchion o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon) y gellir defnyddio'r ddogfen hon.

36. Mae'r categorïau hyn yn gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl fel y rhestrir isod a bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o fwyd **sydd wedi'i becynnu'n llwyr ar gyfer y defnyddiwr terfynol[6] (neu wedi'i brynu yn achos bwyd anifeiliaid anwes).** Maent yn gynhyrchion a gynhyrchir gan ddefnyddio cynnwys anifeiliaid yn unig o **rwydwaith y gellir ei olrhain o gyflenwyr hysbys**.

**Yn cynnwys**: Cynhyrchion cyfansawdd[7], cynhyrchion cig[8], paratoadau cig[9], llaeth wedi'i brosesu neu gynhyrchion llaeth wedi'u haeddfedu neu wedi'u prosesu, cynhyrchion pysgod/pysgodfeydd, wyau/cynhyrchion wy, bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu, mêl, coesau brogaod, malwod, a molysgiaid dwygragennog byw.

**Heb eu cynnwys**: Anifeiliaid byw, cynhyrchion cenhedlol, cig ffres, llaeth heb ei drin, sgil-gynhyrchion anifeiliaid (gan gynnwys bwyd anifeiliaid anwes amrwd ond ac eithrio bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu). Gellir cynnwys rhai o'r cynhyrchion hyn mewn llwyth allforion cyfunol, ond mae'n rhaid eu bod wedi cael tystysgrif ar wahân heb ddefnyddio ardystiad cymorth 30 diwrnod.

37. Mae'n rhaid bod ardystiadau cymorth wedi'u cwblhau'n llawn a'u llofnodi gan gynrychiolydd addas o'r cwmni cyflenwi (gweler isod) a milfeddyg cofrestredig, Swyddog Ardystio Cymwys ym Maes Bwyd neu Swyddog Cymorth Ardystio sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd y Swyddog Ardystio.

38. Dim ond er mwyn rhoi gwybodaeth iechyd ac olrhain sy'n sefydlog ac sy'n hysbys i'r sawl sy'n ardystio'r ardystiad cymorth a/neu'n gallu cael ei chadarnhau ganddo y gellir defnyddio ardystiadau cymorth. Ni all ardystiadau cymorth y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol gynnwys gwybodaeth am lwythi penodol yn y dyfodol nad yw'n

---

[6] Gweler pwynt 7

[7] Gweler canllawiau GOV.UK: [Export or move composite food products](Export or move composite food products) . Noder nad oes angen Tystysgrif Iechyd Allforio ar gyfer pob cynnyrch cyfansawdd.

[8]Mae 'cynhyrchion cig' yn golygu cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n deillio o brosesu cig neu o brosesu cynhyrchion wedi'u prosesu o'r fath ymhellach, fel bod yr arwyneb wedi'i dorri yn dangos nad oes gan y cynnyrch nodweddion cig ffres mwyach. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchion megis gelatin sy'n gynhyrchion cig ond y mae angen tystysgrif allforio UE wahanol arnynt i'r dystysgrif "cynnyrch cig".

[9]Mae 'paratoadau cig' yn golygu cig ffres (gan gynnwys cig sydd wedi cael ei troi'n ddarnau) y mae bwydydd, sesnin neu ychwanegion wedi cael eu hychwanegu ato neu sydd wedi mynd drwy brosesau nad oeddent yn ddigon i addasu strwythur ffeibr cyhyr mewnol y cig ac felly i ddileu nodweddion cig ffres.


hysbys neu na ellir ei chadarnhau pan gaiff yr ardystiad ei lofnodi. Ni all milfeddygon ardystio’r wybodaeth hon yn ardystiad cymorth y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ond gall y cyflenwr ei datgan er mwyn helpu prosesau olrhain.

39. Ni ellir defnyddio ardystiadau'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol i ddatgan datganiadau rhyddid rhag clefydau hysbysadwy ymlaen llaw ond gellir eu defnyddio i roi gwybodaeth olrhain berthnasol (os yw'r gadwyn gyflenwi yn hysbys ac yn sefydlog). Bydd nodi o ba sefydliadau neu ranbarthau daearyddol y daw cynhyrchion yn helpu'r Milfeddyg Swyddogol ar gyfer yr allforion i gael y wybodaeth angenrheidiol am glefydau i glirio'r cynhyrchion ar adeg allforio.

40. Dogfennau ar gyfer llwythi penodol yw Tystysgrifau Iechyd Allforio felly, os bydd yn ofynnol rhoi manylion am lwythi penodol ar gyfer Tystysgrifau Iechyd Allforio, bydd yn rhaid rhoi'r rhain i'r Swyddog Ardystio ar wahân i ardystiadau cymorth y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol (e.e. drwy systemau masnachol y gall y Swyddog Ardystio eu defnyddio).

41. Gall ardystiadau cymorth roi gwybodaeth iechyd ac olrhain berthnasol am amrywiaeth o wahanol gynhyrchion gan yr un cyflenwr, gan gynnwys cynhyrchion a gaiff eu hallforio ar Dystysgrifau Iechyd Allforio gwahanol yn y pen draw. Mae gofynion iechyd ac olrhain yn wahanol ar gyfer gwahanol Dystysgrifau Iechyd Allforio a bydd angen i filfeddygon/cyflenwyr/allforwyr drafod ymlaen llaw er mwyn cytuno ar y wybodaeth ategol y bydd angen ei chynnwys yn yr ardystiad cymorth (drwy gyfeirio at Dystysgrifau Iechyd Allforio perthnasol yr UE).

**Trosolwg Lefel Uchel**




42. Ceir darlun manylach o'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu yn Atodiad I.

## Canllawiau Ardystiadau Cymorth ar gyfer Swyddogion Ardystio

43. Rhagwelir y bydd angen i'r Swyddog Ardystio fod yn Filfeddyg Swyddogol ar gyfer y rhan fwyaf o allforion cyfunol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion (yn dibynnu ar y nwyddau penodol yn y llwyth) gall allforyn cyfunol gael ei ardystio gan Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd.

44. Ym Mhrydain Fawr, mae'n rhaid bod Swyddog Ardystio sy'n gweithredu o dan y canllawiau hyn fod wedi'i gymhwyso'n addas a'i gymeradwyo gan APHA. Os

defnyddir Swyddogion Cymorth Ardystio mae'n rhaid eu bod hefyd wedi'u hyfforddi yn unol â gofynion APHA ac mae'n rhaid iddynt weithredu o dan oruchwyliaeth Swyddog Ardystio. Rôl y Swyddog Cymorth Ardystio yw peidio â mynd y tu hwnt i'r hyn a amlinellir gan APHA mewn nodiadau cyfarwyddyd perthnasol.[10]

45. Mae'n rhaid i Swyddogion Ardystio gadarnhau bod yr allforwyr yn aelodau cyfredol o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol cyn defnyddio ardystiadau cymorth. Gellir gwneud hyn drwy edrych ar y rhestr o aelodau cyfredol, sydd ar gael yn gyhoeddus ar Borth Milfeddygon APHA.

46. Gellir defnyddio ardystiadau cymorth a ddefnyddir yn unol â'r canllawiau hyn i gadarnhau agweddau megis:

    - Rhywogaeth a tharddiad cynhyrchion anifeiliaid
    - Y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer prosesu cynhyrchion anifeiliaid
    - Cadarnhau cymeradwyaeth neu statws cofrestru'r sefydliad(au) bwyd sy'n cyflenwi

47. Mae'n rhaid i Swyddogion Ardystio gyfeirio at y Dystysgrif Iechyd Allforio berthnasol gan yr UE a'r Nodiadau Cyfarwyddyd cysylltiedig er mwyn pennu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chynnwys yn yr ardystiad cymorth (Rhan IB) a'u galluogi i gwblhau'r dystysgrif/tystysgrifau allforio perthnasol. Mae hyn yn amrywio yn ôl nwyddau ac mae'n destun adolygiad gan yr UE.

48. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r Swyddog Ardystio archwilio dogfennaeth ar gyfer pob llwyth allforio a gwmpesir gan y Dystysgrif Iechyd Allforio. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r canlynol:

    a. Ardystiadau cymorth
    b. Gwybodaeth bersonol am y llwyth lle y bo'n briodol
    c. Hanes archwilio lle y bo'n briodol

49. Ar gyfer y wybodaeth ategol y mae'r ardystiad cymorth yn ei chynnwys sy'n cwmpasu amrywiaeth o gynnyrch gan gyflenwr, bydd angen i'r allforiwr ddarparu'r elfennau sy'n benodol i'r llwyth a ardystiwyd i'r Swyddog Ardystio ar adeg cwblhau'r Dystysgrif Iechyd Allforio.

50. Dylai Swyddogion Ardystio gynnal archwiliadau ffisegol digonol i sicrhau cywirdeb a dilysrwydd yr ardystiadau cymorth a ddarperir o dan y canllawiau hyn. Gall yr archwiliadau hyn gael eu hategu gan dystiolaeth Swyddog Cymorth Ardystio a wneir o dan gyfarwyddyd y Swyddog Ardystio. Gall yr archwiliadau hyn gynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

    - Archwilio'r cynhyrchion yn ffisegol

---

[10] http://apha.defra.gov.uk/external-operations-admin/library/documents/exports/ET175.pdf

- Archwilio'r safle cynhyrchu/trefniadau prosesu yn ffisegol
- Archwilio ar hap ac ar sail risg i gadarnhau dilysrwydd y wybodaeth a ddarparwyd.

51. Os bydd tystiolaeth yn awgrymu bod cyflenwr ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r allforiwr yn peri risg uwch, mae'n rhaid cynnal archwiliadau o'r allforion yn fwy rheolaidd. Gall enghreifftiau o risg uwch gynnwys y canlynol:
    - Tystiolaeth o fân wallau yn yr ardystiadau
    - Cyflenwi cynhyrchion yr ystyrir eu bod yn peri risg uwch i iechyd anifeiliaid neu iechyd pobl

52. Mae'n rhaid i'r Swyddog Ardystio gadw tystiolaeth i gefnogi'r broses archwilio ar gyfer pob cyflenwr.

53. Os bydd y Swyddog Ardystio yn nodi mân achosion o afreoleidd-dra neu ddiffyg cydymffurfio mewn ardystiad cymorth, dylid rhoi gwybod i'r allforiwr a'r milfeddyg/Swyddog Ardystio Cymwys ym Maes Bwyd/Swyddog Cymorth Ardystio (fel y bo'n briodol) a roddodd yr ardystiad cymorth perthnasol.
    - Enghraifft o fân achos o afreoleidd-dra neu ddiffyg cydymffurfio yw mân wallau dogfennol, megis gwallau trosi

54. Os bydd y Swyddog Ardystio yn nodi achosion difrifol o afreoleidd-dra neu ddiffyg cydymffurfio mewn ardystiad gan gyflenwr, dylid rhoi gwybod i'r canlynol am hyn:
    - GEFS@defra.gov.uk

55. Gall enghreifftiau o afreoleidd-dra difrifol gynnwys y canlynol:
    - Tystiolaeth o dwyll bwriadol neu ffugio dogfennaeth ategol
    - Methiant cyflenwr i roi gwybod am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ddilysrwydd ardystiad cymorth ar unwaith

56. Os bydd tystiolaeth o fân afreoleidd-dra neu ddiffyg cydymffurfio, ni ddylid derbyn yr ardystiadau ategol anghywir perthnasol nes eu bod wedi cael eu cywiro.

57. Os bydd tystiolaeth o afreoleidd-dra neu fân achosion sy'n digwydd dro ar ôl tro mewn ardystiad, ni ddylid derbyn ardystiadau gan y cyflenwr hwnnw fel tystiolaeth ddibynadwy gan y Swyddog Ardystio mwyach ar gyfer rhoi Tystysgrif Iechyd Allforio. Dim ond os bydd y Swyddog Ardystio yn hollol fodlon eu bod yn gywir y gellir derbyn ardystiadau a roddir gan y cyflenwr hwnnw yn y dyfodol at ddibenion ardystio, a gall hynny olygu cynnal archwiliad ffisegol o safle'r cyflenwr neu ddarparu gwybodaeth olrhain berthnasol ar gyfer y llwyth penodol hwnnw gan filfeddyg arall.

## Canllawiau Ardystiadau Cymorth ar gyfer Cyflenwyr/Milfeddygon Cofrestredig

58. Mae'n rhaid i'r ardystiad cymorth gael ei lofnodi gan unigolyn sydd â gwybodaeth ddigonol am y rhannau perthnasol o'r prosesau cynhyrchu, cludo, a storio ac sy'n gyfrifol amdanynt, ac sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan Reolwr Gyfarwyddwr (neu unigolyn cyfatebol) y cwmni cyflenwi i lofnodi ar ran y cwmni cyflenwi.

59. Mae'n rhaid i filfeddyg cofrestredig[11] lofnodi adran berthnasol yr ardystiad cymorth hefyd yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth briodol. Wrth wneud hynny, bydd yn gwneud hynny yn ei rôl breifat fel milfeddyg cofrestredig ac nid yn ei rôl fel Milfeddyg Swyddogol (os oes ganddo'r awdurdod hwn hefyd). Ni ddylid defnyddio stampiau Milfeddygol Swyddogol ar ardystiadau cymorth am fod y rhain yn ddogfennau preifat yn hytrach na dogfennau swyddogol. Mae hyn hefyd yn helpu i osgoi unrhyw risg o ddryswch rhwng ardystiadau cymorth a thystysgrifau iechyd allforio.

60. Efallai mai Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd fydd yn llofnodi'r ardystiad cymorth mewn rhai amgylchiadau. Caiff Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Cymwys. Yn unol â Chod Ymarfer Coleg Brenhinol y Milfeddygon, gallant ddarparu ardystiadau i Filfeddyg Swyddogol sydd wedi'i ardystio ar faterion penodol. Dim ond yn unol â'r amodau yng Nghod Coleg Brenhinol y Milfeddygon, e.e. ar gyfer cynhyrchion y gallai'r Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd eu hardystio i'w hallforio yn ei rinwedd ei hun, megis cynhyrchion pysgodfeydd, y gall Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd lofnodi ardystiad cymorth o dan y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol. I gael rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth ategol y gall Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ei darparu, darllenwch ganllawiau Coleg Brenhinol y Milfeddygon yma (21.A.5).

61. Gall Swyddog Cymorth Ardystio lofnodi adran berthnasol yr ardystiad cymorth yn hytrach na milfeddyg cofrestredig, ond **dim ond pan fydd yn gweithredu o dan gyfarwyddyd Swyddog Ardystio (e.e. Milfeddyg Swyddogol neu Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd) sy'n ardystio'r allforyn terfynol**. Yn yr achos hwn, cyfrifoldeb y Swyddog Ardystio yw penderfynu pa dystiolaeth y mae angen ei harchwilio. Mae'n rhaid i'r Swyddog Ardystio fod yn ddigon cyfarwydd â'r sefydliad sy'n cael ei archwilio er mwyn dirprwyo archwiliadau gweinyddol penodol i'r Swyddog Cymorth Ardystio sy'n gweithio o dan ei gyfarwyddyd. Ym Mhrydain Fawr, mae'n rhaid i Swyddogion Cymorth Ardystio gyfeirio at bolisi APHA a chydymffurfio ag ef, gan gynnwys peidio ag ymgymryd â swyddogaethau lle mae angen barn filfeddygol. Gall Swyddogion Cymorth Ardystio ddefnyddio eu stampiau swyddogol

---

[11] Ym Mhrydain Fawr, diffinnir hyn fel aelod neu gymrawd o Goleg Brenhinol y Milfeddygon

Yng Ngogledd Iwerddon, at ddiben a gweithrediad y cynllun hwn yn unig, diffinnir milfeddyg cofrestredig fel milfeddyg sy'n aelod neu'n gymrawd o Goleg Brenhinol y Milfeddygon ac sydd wedi'i benodi gan DAERA i roi ardystiadau cymorth o dan y cynllun hwn.

(os ydynt ar gael), er mwyn helpu i ddarparu tystiolaeth ar ffurf ardystiadau cymorth neu ddogfennaeth arall sy'n ofynnol i helpu'r Swyddog Ardystio i ardystio cynhyrchion i'w hallforio.

62. Rhaid i gyflenwyr fod yn destun archwiliad milfeddygol cychwynnol, ac yna gael eu harchwilio'n rheolaidd bob tro y bydd angen ardystiad cymorth newydd.

63. Ar ôl yr archwiliad cychwynnol, bydd yn ofynnol i'r milfeddyg cofrestredig neu'r Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd sy'n archwilio ymweld â'r safle o leiaf unwaith bob tri mis, a gellir cynnal ymweliadau eraill yn rhithwir os gall y sawl sy'n rhoi'r ardystiad cymorth gydymffurfio â Chod Coleg Brenhinol y Milfeddygon mewn perthynas ag ardystio o bell neu ganllawiau'r awdurdod cymwys fel y bo'n briodol. Yn achos Swyddog Cymorth Ardystio sy'n gweithio o dan gyfarwyddyd Milfeddyg Swyddogol, disgwylir i'r Milfeddyg Swyddogol ymweld â'r safle o leiaf unwaith bob tri mis, a gall y Swyddog Cymorth Ardystio gynnal ymweliadau yn y cyfamser yn ôl yr angen.

64. Gallai ffurfiau addas ar dystiolaeth y gall milfeddygon cofrestredig, Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddogion Cymorth Ardystio eu harchwilio cyn llofnodi ardystiad cymorth gynnwys:

- cytundebau contractiol
- anfonebau
- cynlluniau/cofnodion HACCP
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol
- Cofnodion olrhain

65. Dylai cyflenwyr roi Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar waith i ddiffinio prosesau a chyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer cynhyrchu'r nwyddau i'w hallforio yn sefydlog, gan bennu'r ffordd y dilysir y prosesau hyn ac yna'r trefniadau dilynol ar gyfer rhoi ardystiadau cymorth a hysbysu Swyddogion Ardystio, milfeddygon sy'n archwilio, Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ac allforwyr am unrhyw newidiadau perthnasol os bydd y rhain yn digwydd yn ystod cyfnod dilysrwydd yr ardystiad cymorth.

66. Bydd yn ofynnol i gyflenwyr gasglu tystiolaeth berthnasol ynghyd i'w chyflwyno i'r milfeddyg sy'n archwilio, Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddog Cymorth Ardystio yn gweithio o dan gyfarwyddyd Swyddog Ardystio. Ni ellir llofnodi ardystiadau cymorth nes bod y dystiolaeth hon wedi cael ei harchwilio. Bydd angen i ardystiadau cymorth gynnwys yr holl wybodaeth y bydd angen i'r Swyddog Ardystio sy'n cwblhau'r Dystysgrif Iechyd Allforio ei chael yn y pen draw.

67. Yn yr archwiliad cychwynnol, mae'n rhaid bod cyflenwyr hefyd yn gallu dangos y canlynol (hyd at lefel sy'n foddhaol i'r milfeddyg cofrestredig, y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Ardystio sy'n cyfarwyddo Swyddog Cymorth Ardystio i gynnal archwiliadau sy'n cadarnhau'r canlynol:

- Bod y cofnodion iechyd/olrhain a phrosesu perthnasol ar gyfer y cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn gywir
- Nad oes unrhyw newidiadau perthnasol[12] wedi cael eu gwneud (ac eithrio'r newidiadau a wnaed yn benodol i fodloni gofynion newydd sy'n dibynnu ar Ymadael â'r UE neu mewn ymateb i COVID19) yn ystod y 30 diwrnod calendr blaenorol
- Na fu unrhyw newidiadau o'r fath yn ystod o leiaf pedwar o'r chwe mis blaenorol.

68. Mae'n rhaid i filfeddygon cofrestredig, Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddogion Cymorth Ardystio hefyd archwilio o leiaf sampl gynrychioliadol o'r cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys, i gadarnhau bod eu disgrifiadau yn cyfateb i'r hyn a ddatganwyd gan y cyflenwr, eu bod wedi'u pecynnu'n llwyr ar gyfer y defnyddiwr terfynol[13], a bod unrhyw nodau adnabod sydd ar gael ar gynhyrchion o'r fath yn cyfateb i'r hyn a ddatganwyd yn yr ardystiad cymorth.

69. Yn achos cyflenwyr â mwy nag un safle cynhyrchu, gellir rhoi un ardystiad cymorth i gwmpasu pob un o'r safleoedd. Dim ond os caiff yr holl safleoedd cynhyrchu eu gweithredu gan yr un cyflenwr ac os bydd y milfeddyg, y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Cymorth Ardystio yn gweithio o dan gyfarwyddyd Milfeddyg Swyddogol sy'n llofnodi'r ardystiad cymorth yn gallu archwilio a chasglu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer pob safle y gellir gwneud hyn.

70. Lle y defnyddir Swyddog Cymorth Ardystio, mae'n rhaid i'r Swyddog Ardystio roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig clir (e.e. rhestr wirio) i nodi'n benodol yr hyn sydd angen ei archwilio.

71. Mae'n rhaid i filfeddygon cofrestredig, Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddogion Cymorth Ardystio gadw copïau o dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi rhoi ardystiadau cymorth (copïau electronig neu galed) ac, os cawsant eu defnyddio, unrhyw restrau gwirio a gwblhawyd, am o leiaf ddwy flynedd ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael ar gais i Swyddogion Ardystio sy'n gyfrifol am ardystio llwythi allforio (e.e. drwy borth electronig).

72. Mae terfyn amser i ardystiadau cymorth, sy'n dechrau yn union ar ôl yr archwiliad/ailarchwiliad gan y milfeddyg cofrestredig, y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Cymorth Ardystio. Mae ardystiadau cymorth yn ddilys i'w defnyddio o ddiwrnod yr archwiliad hyd at a chan gynnwys y dyddiad dod i ben (dyddiad yr archwiliad + 30 diwrnod calendr).

---

[12] Newid sy'n effeithio ar wybodaeth i'w hardystio yn y Dystysgrif Iechyd Allforio (e.e. ychwanegu cyflenwr cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid newydd, newid i driniaeth prosesu/gwres cynnyrch) yw newid perthnasol.

[13] Gweler pwynt 7

73. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n rhaid i'r cyflenwr hysbysu'r allforiwr a'r milfeddyg neu'r Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd a lofnododd yr ardystiad cymorth ar unwaith am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ddilysrwydd yr ardystiad cymorth. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n rhaid bod gan y cyflenwr broses glir ar waith (sydd wedi'i chynnwys yn ei Weithdrefn Gweithredu Safonol) i sicrhau bod unrhyw hysbysiad o'r fath yn digwydd heb oedi.

74. Mae'n rhaid rhoi rhif cyfeirnod unigryw i bob ardystiad cymorth gwreiddiol a ddefnyddir. Mae'n rhaid rhoi'r rhif hwn i'r ardystiad cymorth cyn i'r milfeddyg cofrestredig, y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Cymorth Ardystio roi'r ardystiad cymorth. Os caiff ardystiad cymorth ei ddefnyddio gan fwy nag un allforiwr, gall yr allforiwr ychwanegu rhif cyfeirnod at y ddogfen i gyd-fynd â'i systemau rheoli gwybodaeth mewnol ei hun, ond rhaid iddo gadw cofnod o'r rhif cyfeirnod unigryw a roddwyd yn y safle cyflenwi.

    Fformat a awgrymir: rhif unigryw'r cyflenwr/rhif dilyniannol/rhif unigryw ar gyfer y milfeddyg, y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Cymorth Ardystio sy'n llofnodi rhan II/blwyddyn (e.e.: 15435/0000001/m159607/2021).

75. Yn y templed o ardystiad cymorth yn Atodiad II, gellir dewis ychwanegu'r wybodaeth ganlynol er mwyn cynnwys y sefyllfa lle y caiff ardystiad cymorth ei roi cyn bod yr allforiwr/allforwyr bwriadedig yn hysbys:
    - ‘Enw cwmni'r allforiwr’
    - ‘Cyfeiriad ac, os yw ar gael, Rhif Cymeradwyo*/Cofrestru* y sefydliad(au) y caiff y llwyth ei anfon iddo/iddynt (e.e. depos allforio)’

76. Bydd angen anfon dogfen/maniffest masnachol gyda phob llwyth a gaiff ei symud i'r depo allforio tra bydd yr ardystiad cymorth yn ddilys (neu ei chysylltu/gysylltu'n electronig ag ef). Rhaid llofnodi/cymeradwyo'r ddogfen/maniffest ar ran y cwmni cyflenwi gan nodi: ‘Mae'r dystiolaeth sy'n ofynnol i hwyluso'r gwaith o allforio'r cynhyrchion yn y llwyth hwn wedi cael ei darparu yn ardystiad cymorth .... [nodwch rif cyfeirnod unigryw'r ardystiad cymorth perthnasol]. Nid oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud sy'n effeithio ar ddilysrwydd y wybodaeth a ddarparwyd yn yr ardystiad cymorth hwn’ neu eiriau i'r un perwyl.

# Gwrthdaro Buddiannau

77. Nid yw'r canllawiau hyn yn diffinio nac yn rhagnodi unrhyw drefniadau cytundebol rhwng swyddogion ardystio, allforwyr, cyflenwyr neu'r rhai sy'n ardystio'r ardystiadau cymorth. Fodd bynnag, dylid cyfeirio at ganllawiau'r awdurdod cymwys perthnasol a chodau ymddygiad proffesiynol sy'n diffinio gwrthdrawiad buddiannau, er mwyn sicrhau bod ardystiadau yn parhau i fod yn ddiduedd.

Mae'n rhaid i filfeddygon ystyried a chydymffurfio â'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn egwyddorion ardystio Coleg Brenhinol y Milfeddygon sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau gan gynnwys:

- Ni ddylent ganiatáu i bwysau masnachol, pwysau ariannol na phwysau arall effeithio ar eu didueddrwydd.
- Ni chaniateir iddynt ardystio os byddant yn berchen ar naill ai busnes sy'n cynhyrchu nwyddau i'w hallforio neu'r nwyddau i'w hallforio, neu'n berchen yn rhannol arnynt, neu'n gyflogai cyflogedig o'r busnes.


Dylai Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau.

# Cysylltu â ni


Cysylltwch â GEFS@defra.gov.uk os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

# Atodiad I: siart lif proses

## Paratoi:



## Ardystio:


Gweithgynhyrchwr/ cyflenwr
Creu/cyflenwi nwyddau
Gofyn i filfeddyg cofrestredig neu Swyddog Cymorth Ardystio archwilio'r gadwyn gyflenwi (cyfleusterau/prosesau/cofnodion)
Rhoi Ardystiad Cymorth
Milfeddyg cofrestredig/ Swyddog Cymorth Ardystio(1)
Archwilio'r sefydliad cyflenwi a chofnodion olrhain
Llofnodi datganiad a fydd yn ddilys am "30" diwrnod
Allforiwr
2. Casglu'r llwyth ynghyd yn y Depo
Gofyn am ardystiad allforio gan y Swyddog Ardystio
Swyddog Ardystio
4.3.2 Gallai Swyddog Cymorth Ardystio helpu'r Milfeddyg Swyddogol i gynnal archwiliadau
Cadarnhau beth yw'r llwyth
Defnyddio gwybodaeth bersonol am brosesau allforwyr ac archwiliadau ffisegol o lwythi
Cadarnhau amodau olrhain ac allforio'r llwyth
Defnyddio Ardystiadau Cymorth neu ffynonellau eraill o wybodaeth (ar gyfer Milfeddygon Swyddogol yn unol â Chod Ymarfer Coleg Brenhinol y Milfeddygon)
Llofnodi a stampio'r Dystysgrif Iechyd Allforio
Copi caled o'r Dystysgrif Iechyd Allforio yn mynd gyda'r llwyth a gaiff ei allforio
Mae angen tystiolaeth ddogfennol
Darparu'r ddogfennaeth sydd ei hangen
(1) yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Milfeddyg Swyddogol sy'n ardystio'r allforion

Templed ar gyfer yr ardystiad cymorth yw'r atodiad canlynol. Rhaid i bob un o ardystiadau cymorth y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ddefnyddio'r testun hwn. Gellir ychwanegu gwybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

# Atodiad II: Templed ardystiad cymorth

**NODYN PWYSIG: NID YW'R ARDYSTIAD CYMORTH HWN YN DYSTYSGRIF ALLFORIO IECHYD SWYDDOGOL. Dylid ei ddefnyddio i gefnogi prosesau ardystio allforion yr UE o gategorïau penodol o gynhyrchion mewn llwythi allforion cyfunol i'r UE yn unol â chanllawiau a gyflwynwyd gan Defra/APHA yn unig.**

**RHIF CYFEIRNOD UNIGRYW'R DDOGFEN [(14)] ………………………………….**

## I. Datganiad cyflenwr

Mae gennyf fi……………………………………………………… (enw llawn), …………………………………………………..(rôl swyddogol yn y cwmni) yn ………………………………………………………………………………………… (enw a chyfeiriad y cwmni cyflenwi), yr awdurdod a'r cyfrifoldeb i lofnodi'r datganiad hwn ar ran y cwmni cyflenwi hwn.

*[Adran ddewisol[15]:*

*Datganaf drwy hyn fod y manylion yn adrannau A a B isod yn cynnwys rhestr lawn o'r cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sydd wedi'u cynnwys yn y cynhyrchion y mae'r ardystiad cymorth hwn yn ymwneud â nhw, a gyflenwir i…………………………………………..  (enw cwmni'r allforiwr).]*

Cadarnhaf fod y wybodaeth yn yr ardystiad cymorth hwn yn gywir ac na wneir unrhyw newidiadau i effeithio ar ei ddilysrwydd cyn ei ddyddiad dod i ben.

Byddaf yn sicrhau y caiff y milfeddyg cofrestredig* / Swyddog Cymorth Ardystio* / Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd sy'n llofnodi'r ardystiad yn adran II a'r allforiwr a restrir uchod eu hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud sy'n effeithio ar ddilysrwydd y ddogfen hon ac/os byddaf yn gadael cyflogaeth y cwmni cyflenwi a nodwyd uchod. Deallaf mewn achosion o'r fath y bydd yr ardystiad cymorth hwn yn ddi-rym ar unwaith.

Deallaf fod cyflwyno datganiadau anwir neu gamarweiniol y bydd yr allforiwr yn dibynnu arnynt o ran y dilysiadau a ddarparwyd yn y dystysgrif iechyd allforio berthnasol yn drosedd a gall arwain at wrthod y cynnyrch a allforiwyd a thynnu'r

---

[14] Mae'n rhaid rhoi rhif cyfeirnod unigryw i bob ardystiad iechyd cymorth gwreiddiol a ddefnyddir. Fformat a awgrymir: rhif unigryw'r cyflenwr/rhif dilyniannol/rhif unigryw ar gyfer y milfeddyg, Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'r Swyddog Cymorth Ardystio sy'n llofnodi rhan II/blwyddyn (e.e.: 15435/0000001/m159607/2019)

[15] Gweler pwynt 74

allforiwr o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ar unwaith yn ogystal â risg o atebolrwydd am gostau yr aethpwyd iddynt.

Byddaf yn sicrhau y bydd gan bob llwyth o gynhyrchion a anfonir at y depo allforio a gwmpesir gan yr ardystiad cymorth hwn ddatganiad a lofnodir ar ran y cwmni cyflenwi ac sy'n nodi “Mae'r dystiolaeth sy'n ofynnol i hwyluso'r gwaith o allforio'r cynhyrchion yn y llwyth hwn wedi cael ei darparu yn ardystiad cymorth .... [nodwch y rhif cyfeirnod unigryw fel uchod]. Nid oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud sy'n effeithio ar ddilysrwydd y wybodaeth a ddarparwyd yn yr ardystiad cymorth hwn.”

**A. Manylion y cynnyrch/cynhyrchion:**

**1. Safle Gwreiddiol a Safle Pen y Daith**

a) Cyfeiriad ac, os yw ar gael, Rhif Cymeradwyo* / Cofrestru* y sefydliad(au) y caiff y llwyth ei anfon <u>ohono/ohonynt</u> (e.e. cyflenwr):

.......................................................................................................................
...................................................................................................................

*[Dewisol*[16]

*b) Cyfeiriad ac, os yw ar gael, Rhif Cymeradwyo* / Cofrestru* y sefydliad(au) y caiff y llwyth ei anfon <u>iddo/iddynt</u> (e.e. depos allforio):*

*.......................................................................................................................*
*...................................................................................................................]*

**2. Disgrifiad o'r cynnyrch/cynhyrchion**

Manylion cynnyrch penodol am yr holl gynhyrchion y mae'r ardystiad cymorth hwn yn ymwneud â nhw (gellir atodi hyn fel atodlen):

.......................................................................................................................
...................................................................................................................

**B. Gwybodaeth olrhain:**

*[NODWCH Y WYBODAETH SY'N OFYNNOL SY'N YMWNEUD Â'R HOLL GYNHYRCHION A RESTRIR UCHOD (YN A.2) FEL Y CYTUNWYD Â'R SWYDDOG ARDYSTIO SY'N GYFRIFOL AM ARDYSTIO ALLFORION]*

**Awdurdodwyd gan**

**Enw:**

**Llofnod:**

**Swydd:**

[16] Gweler pwynt 74

**Dyddiad:**

* dilëwch fel y bo angen

## II. Datganiad milfeddyg cofrestredig, Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu Swyddog Cymorth Ardystio

Mae'n rhaid cwblhau a llofnodi naill ai adran A (datganiad milfeddyg cofrestredig), adran B (datganiad Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd) neu adran C (datganiad Swyddog Cymorth Ardystio) (17)

### A. Datganiad milfeddyg cofrestredig

Rwyf i, y milfeddyg cofrestredig sydd wedi llofnodi isod, yn datgan fy mod wedi archwilio'r safle(oedd) cyflenwi a nodir yn "I.A.1.a" uchod ac, ar ôl adolygu prosesau cynhyrchu ac olrhain y cyflenwr perthnasol gan gynnwys tystiolaeth ddogfennol berthnasol ynghylch yr holl gynhyrchion a restrir yn "I.A.2", gallaf gadarnhau bod yr ardystiadau a ddarperir yn adran I B (manylion iechyd ac olrhain) yn gywir ar hyn o bryd.

Cadarnhaf fy mod wedi gweld cadarnhad ysgrifenedig gan reolwr gyfarwyddwr (neu unigolyn cyfatebol) y cwmni cyflenwi i ddilysu bod llofnodwr Rhan I wedi'i awdurdodi i lofnodi'r ddogfen hon ar ran y cwmni cyflenwi.

*Ni fu unrhyw ychwanegiadau at fanylion iechyd ac olrhain y cynnyrch, nac unrhyw warediadau nac addasiadau, sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod y 30 diwrnod calendr blaenorol.*

*[I'w gwblhau yn yr archwiliad cychwynnol yn unig; dilëwch ar gyfer archwiliadau dilynol:*
*A:*
*Naill ai* Ni fu <u>unrhyw</u> newidiadau i fanylion iechyd ac olrhain y cynnyrch sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) <u>yn ystod y 6 mis blaenorol</u>*
*<u>Neu* Ni fu unrhyw newidiadau i fanylion iechyd ac olrhain y cynnyrch sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod o leiaf 4 o'r 6 mis blaenorol</u>[18] a disgrifir manylion, gan gynnwys dyddiad y newid(iadau) yma……………………………………………………………………………………………]*

**Dyddiad yr archwiliad: ………………………………….**
**Dyddiad dod i ben cyfredol: ………………………… [30 diwrnod o ddyddiad yr archwiliad uchod]**

Mae'r ardystiad cymorth hwn ond yn ddilys am 30 diwrnod o'r dyddiad uchod neu nes fy mod yn cael fy hysbysu am unrhyw newidiadau i ddatganiad y cyflenwr uchod (pa un bynnag sydd gyntaf). Os byddaf yn cael fy hysbysu am newidiadau sy'n effeithio ar y dyddiad dod i ben uchod, byddaf yn hysbysu'r Milfeddyg Swyddogol/Swyddog Ardystio

---

[17] Dim ond os ydynt yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Milfeddyg Swyddogol yn y depo allforio terfynol y gall Swyddogion Cymorth Ardystio lofnodi a stampio'r ardystiad cymorth hwn.

[18] Gweler pwynt 66 o'r ddogfen ganllaw hon

Cymwys ym maes Bwyd sy'n gyfrifol am ardystio allforion o'r sefydliad(au) a restrir yn I.A.1.b.

**Llofnod:**

**Enw**: ............................................................. **[enw llawn y milfeddyg a rhif Coleg Brenhinol y Milfeddygon]**
**Stamp practis milfeddygol**[19]**:** **Cyfeiriad:**

**B. Datganiad Swyddog Ardystio Cymwys ym Maes Bwyd**

Rwyf i, y Swyddog Ardystio Cymwys ym Maes Bwyd sydd wedi llofnodi isod, yn datgan fy mod wedi archwilio'r safle(oedd) cyflenwi a nodir yn “I.A.1.a” uchod ac, ar ôl adolygu prosesau cynhyrchu ac olrhain y cyflenwr perthnasol gan gynnwys tystiolaeth ddogfennol berthnasol ynghylch yr holl gynhyrchion a restrir yn “I.A.2”, gallaf gadarnhau bod yr ardystiadau a ddarperir yn adran I B (manylion iechyd ac olrhain) yn gywir ar hyn o bryd.

Cadarnhaf fy mod wedi gweld cadarnhad ysgrifenedig gan reolwr gyfarwyddwr (neu unigolyn cyfatebol) y cwmni cyflenwi i ddilysu bod llofnodwr Rhan I wedi'i awdurdodi i lofnodi'r ddogfen hon ar ran y cwmni cyflenwi.

*Ni fu unrhyw ychwanegiadau at fanylion iechyd ac olrhain y cynnyrch, nac unrhyw warediadau nac addasiadau, sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod y 30 diwrnod calendr blaenorol.*

*[I'w gwblhau yn yr archwiliad cychwynnol yn unig; dilëwch ar gyfer archwiliadau dilynol: A:*
*Naill ai* Ni fu unrhyw newidiadau i fanylion iechyd ac olrhain y cynnyrch sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod y 6 mis blaenorol*
*Neu* Ni fu unrhyw newidiadau i fanylion iechyd ac olrhain y cynnyrch sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod o leiaf 4 o'r 6 mis blaenorol*[20] *a disgrifir manylion, gan gynnwys dyddiad y newid(iadau) yma*………………………………………………………………………………………]

**Dyddiad yr archwiliad: ………………………………….**
**Dyddiad dod i ben cyfredol: ……………………….** **[30 diwrnod o ddyddiad yr archwiliad uchod]**

Mae'r ardystiad cymorth hwn ond yn ddilys am 30 diwrnod o'r dyddiad uchod neu nes fy mod yn cael fy hysbysu am unrhyw newidiadau i ddatganiad y cyflenwr uchod (pa un bynnag sydd gyntaf). Os byddaf yn cael fy hysbysu am newidiadau sy'n effeithio ar y dyddiad dod i ben uchod, byddaf yn hysbysu'r Milfeddyg Swyddogol/Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd sy'n gyfrifol am ardystio allforion o'r sefydliad(au) a restrir yn I.A.1.b.

**Llofnod:**

**Enw**: ............................................................. **[enw llawn y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd a'r rhif awdurdodi]**

---

[19] Mae'n ofynnol ei ddefnyddio ar gopïau papur yn unig (gweler y canllawiau isod)

[20] Gweler pwynt 66 o'r ddogfen ganllaw hon

**Stamp y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd[21]:**
**Cyfeiriad:**

## C. Datganiad y Swyddog Cymorth Ardystio

Rwyf i, y Swyddog Cymorth Ardystio sydd wedi llofnodi isod, wedi archwilio tystiolaeth ddogfennol a chwblhau archwiliadau ffisegol yn y safle(oedd) cyflenwi a nodir yn “I.A.1.a” uchod o dan gyfarwyddyd [……………………………………….. (enw'r swyddog(ion) ardystio yn y depo allforio terfynol)] i roi sicrwydd i'r swyddog ardystio hwn fod yr ardystiadau a ddarperir yn adran I B (manylion olrhain) yn gywir ar hyn o bryd.

Cadarnhaf fy mod wedi gweld cadarnhad ysgrifenedig gan reolwr gyfarwyddwr (neu unigolyn cyfatebol) y cwmni cyflenwi i ddilysu bod llofnodwr Rhan I wedi'i awdurdodi i lofnodi'r ddogfen hon ar ran y cwmni cyflenwi.

*Rwyf wedi cwblhau archwiliadau o dan gyfarwyddyd y swyddog ardystio hwn, sydd, yn seiliedig ar yr archwiliadau hyn, wedi fy awdurdodi yn benodol i wneud y datganiadau canlynol:*
*Ni fu unrhyw ychwanegiadau at fanylion olrhain y cynnyrch, nac unrhyw waredïadau nac addasiadau, sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod y 30 diwrnod calendr blaenorol.*

[ [*I'w gwblhau yn yr archwiliad cychwynnol yn unig; dilëwch ar gyfer archwiliadau dilynol:*
*A:*
*Naill ai* Ni fu unrhyw newidiadau i fanylion olrhain y cynnyrch sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod y 6 mis blaenorol*
*Neu* Ni fu unrhyw newidiadau i fanylion olrhain y cynnyrch sy'n berthnasol i ran I.B (uchod) yn ystod o leiaf 4 o'r 6 mis blaenorol* [22]*a disgrifir manylion, gan gynnwys dyddiad y newid(iadau)*
*yma*……………………………………………………………………………………………]

**Dyddiad yr archwiliad: ………………………………….**
**Dyddiad dod i ben cyfredol: ……………………….** **[30 diwrnod o ddyddiad yr archwiliad uchod]**

Mae'r ardystiad cymorth hwn ond yn ddilys am 30 diwrnod o'r dyddiad uchod neu nes fy mod yn cael fy hysbysu am unrhyw newidiadau i ddatganiad y cyflenwr uchod (pa un bynnag sydd gyntaf). Os byddaf yn cael fy hysbysu am newidiadau sy'n effeithio ar y dyddiad dod i ben uchod, byddaf yn hysbysu'r Swyddog Ardystio sy'n gyfrifol am ardystio allforion o'r sefydliad(au) a restrir yn I.A.1.b.

**Llofnod:**

**Enw**: ..............................................................

**[nodwch enw llawn a rhif y Swyddog Cymorth Ardystio]**

---

[21] Mae'n ofynnol ei ddefnyddio ar gopïau papur yn unig (gweler y canllawiau isod)

[22] Gweler pwynt 66 o'r ddogfen ganllaw hon

**Stamp y Swyddog Cymorth Ardystio[23]:**

**Cyfeiriad:**

* dilëwch fel y bo angen

**Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer cyflenwyr, allforwyr a milfeddygon Swyddogion Ardystio Cymwys ym Maes Bwyd a Swyddogion Cymorth Ardystio**

Mae'n rhaid darparu fersiwn wreiddiol o'r ardystiad cymorth hwn i'r Swyddog Ardystio yn y depo allforio. Mae'n rhaid ei ddarparu naill ai:


- Yn electronig – yn uniongyrchol gan y milfeddyg/Swyddog Ardystio Cymwys ym Maes Bwyd/Swyddog Cymorth Ardystio sy'n llofnodi rhan II uchod i'r Swyddog Ardystio mewn ffordd nad yw'n bosibl i drydydd parti ymyrryd â'r ddogfen.

Neu

- Fel copi papur – yn yr achos hwn mae'n rhaid mai hon yw'r ddogfen wreiddiol wedi'i llofnodi (wedi'i llofnodi mewn lliw heblaw am ddu) ac mae'n rhaid i'r milfeddyg/Swyddog Ardystio Cymwys ym Maes Bwyd/Swyddog Cymorth Ardystio ‘ei lledu a'i stampio’ i ddiogelu rhag ymyrraeth.

[23] Mae'n ofynnol ei ddefnyddio ar gopïau papur yn unig (gweler y canllawiau isod)

# Sut i ‘ledu a stampio’ dogfen:



# Atodiad III: Ffurflen gais y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol (GEFS)

Department for Environment Food & Rural Affairs

## Ffurflen Gais Ymaelodi â'r  Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol

I wneud cais i fod yn aelod o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol, cwblhewch Ran I, Rhan II a Rhan III o'r ffurflen hon. Sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn oherwydd gall methu â gwneud hyn arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

Cyn cwblhau'r ffurflen hon, sicrhewch eich bod wedi darllen ein hysbysiad preifatrwydd.

*Rwyf wedi darllen hysbysiad preifatrwydd y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol* ☐

| Rhan I: Manylion cyswllt y cwmni allforio | | | |
|---|---|---|---|
| Enw masnachu'r cwmni allforio | | | |
| Cyfeiriad cofrestredig y cwmni allforio yn y DU | | | |
| Os byddwch yn rhoi enw rhiant-gwmni, rhowch enwau masnachu'r holl gwmnïau rydych am eu cynnwys fel rhan o'ch aelodaeth. Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen. | | | |
| Enw'r unigolyn a fydd yn llofnodi'r datganiad yn Rhan III: | | Swydd: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif ffôn cyswllt | | Cyfeiriad e-bost cyswllt | |

| Rhan II: Gwybodaeth Ategol |
|---|
| Er mwyn helpu i ddilysu eich sefydliad, darparwch o leiaf un o'r canlynol: |
| ☐ Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI): Rhowch y rhif yma |
| ☐ Rhif Tŷ'r Cwmnïau: Rhowch y rhif yma |
| ☐ Rhif cofrestru TAW: Rhowch y rhif yma |
| ☐ Tystiolaeth arall sy'n ein galluogi i ddilysu eich sefydliad (nodwch): |
| Mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys rhestr o gyflenwyr a fydd yn defnyddio ardystiadau cymorth. Mae dyletswydd arnoch i sicrhau bod gan Defra y copi mwyaf diweddar o'r rhestr hon o gyflenwyr bob amser.<br><br>Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod wedi atodi eich rhestr i'r cais hwn ☐ |

| Rhan III: Y Datganiad |
|---|
| Mae gennyf fi ***ychwanegwch enw yma*** awdurdod a chyfrifoldeb i lofnodi'r datganiad hwn ar ran y cwmni allforio.<br><br>Bydd y cwmni allforio hwn yn cydymffurfio â'r amodau ar ddefnyddio ardystiadau cymorth yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd gan Defra ar ardystio llwythi allforion cyfunol o gynhyrchion penodol wedi'i symleiddio.<br><br>Rwyf yn deall ac yn derbyn y gall methiant y cwmni hwn (neu gwmnïau sy'n darparu ardystiadau cymorth ar gyfer cynhyrchion a gaiff eu hallforio) i gydymffurfio â'r canllawiau hyn arwain at dynnu'r cwmni o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ar unwaith. |

Deallaf hefyd fod angen i mi sicrhau bod gan Defra y copi mwyaf diweddar o'n rhestr o gyflenwyr bob amser, ac y gall methu â chyflwyno'r rhestr fwyaf diweddar arwain at dynnu'r cwmni o'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ar unwaith.

Deallaf y caiff manylion canlynol fy sefydliad eu rhestru ar gov.uk er mwyn galluogi Swyddogion Ardystio i gadarnhau statws fy aelodaeth: enw, cyfeiriad a rhif aelodaeth y sefydliad.

Mae Defra yn ymrwymedig i ddiogelu preifatrwydd eich gwybodaeth bersonol a sicrhau ei bod yn ddiogel. Drwy lofnodi'r datganiad hwn, rydych yn rhoi cydsyniad i ni gasglu a storio'r manylion cyswllt personol canlynol – eich enw, eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn. Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion swyddogol megis cysylltu â chi i gael gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cwmni allforio.

Ni fyddwn yn cyhoeddi eich data personol ar Gov.uk. Gallwch dynnu eich cydsyniad i ni ddefnyddio eich manylion personol ar unrhyw adeg drwy anfon e-bost i GEFS@defra.gov.uk. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y bydd Defra yn prosesu eich data personol ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod: | | *Enw:* | |
| Swydd: | | *Dyddiad:* | |

| *At ddefnydd y swyddfa yn unig* | | | |
|---|---|---|---|
| *Adolygwyd y ffurflen gan* | | *Dyddiad:* | |
| | | | |

DIOGELU DATA

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter